

Cyngor i rieni ar ddysgu wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod clo

Atgoffir rhieni yn Sir y Fflint am ganllawiau argaeledd addysg.

Mae dysgu wyneb yn wyneb wedi'i ohirio gan Lywodraeth Cymru, ar wahân i blant gweithwyr allweddol a dysgwyr agored i niwed, tan o leiaf 29 Ionawr, ond oni bai y bydd cyfraddau heintio yn gostwng yn sylweddol, gallai hyn barhau tan hanner tymor Chwefror.

Gyda chyfraddau trosglwyddiadau cynyddol o ganlyniad i'r amrywiolyn newydd o'r coronafeirws, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan y dylai plant gweithwyr allweddol fynychu ysgol **dim ond** pan **nad oes unrhyw ddewis diogel arall o gwbl** a **dim ond** ar ddiwrnodau pan mae eu rhiant neu rieni yn gweithio.

Dyweddodd y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd Cyngor Sir y Fflint ac Aelod Cabinet Addysg, "Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod anodd iawn i ddisgyblion a rhieni gyda dysgu wyneb yn wyneb wedi'i ohirio i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn pan mae ysgolion yn agored i blant gweithwyr allweddol, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod canllawiau Llywodraeth Cymru o ran pwy sy'n cael mynychu yn cael eu dilyn, er mwyn cadw pawb yn ddiogel."

"Dylai pob plentyn sy'n gallu cael gofal diogel gartref gael hynny, ond os yw gwaith rhieni/gofalwyr yn hanfodol i ymateb COVID-19, ac nad oes modd cadw'r plentyn/plant yn ddiogel gartref, yna rhoddir blaenoriaeth i ddarpariaeth addysg wyneb yn wyneb.

"I sicrhau bod ein cymunedau yn aros yn ddiogel a bod trosglwyddiadau'n cael eu lleihau, dim ond y disgyblion hynny sydd angen bod yn ysgol a ddylai fod yn bresennol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan ysgolion ddigon o gapasiti i'r rhai hynny sydd wir angen y llefydd."

Cyfeiriodd Claire Homard, Prif Swyddog Addysg ac Ieuencid, at ganllawiau Llywodraeth Cymru sy'n datgan:

Nid yw un gweithiwr allweddol yn golygu o reidrwydd bod plant â'r hawl i le yn yr ysgol, ac os yw'n bosibl i blant gael gofal gartref, yna dylent gael hynny.

Nid yw anawsterau cydbwysu dysgu yn y cartref a gweithio gartref yn rheswm i gael y ddarpariaeth, oni bai bod yr unigolyn sy'n gweithio gartref yn weithiwr allweddol sydd ddim yn gallu gofalu am y plentyn yn ddiogel.

Os bydd y capasiti'n llawn, yn seiliedig ar asesiad risg yr ysgol, bydd y Cyngor yn cymryd y penderfyniad y gall rhai plant gael blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth yn seiliedig ar alwedigaeth y rhieni.